

Beic newydd



Tric
a Chlic



Rhedodd Meic allan o'r tŷ.



Gwelodd ei feic newydd, beic
glas, sgleiniog.




Neidiodd ar gefn ei feic newydd.



Aeth i lawr at yr afon a gwelodd bysgod yn neidio yn y dŵr.



Yna, clywodd sŵn y trêrn o dan
bont y rheilffordd.



Aeth heibio'r neuadd a gwelodd
neidr yn llithro yn y glaswellt.



Aeth i'r fferm a gwelodd yr
ieir yn pigo, pigo am fwyd a'r
ceiliog yn canu a chanu.

7



Aeth dros y bont a gwelodd ...

8



deigr!



"Rydw i'n breuddwydio."
meddai Meic.

"Does dim teigrod yn byw
yma." Aeth fel y gwynt i
ddweud wrth ei ffrindiau.



"Mae teigr wrth y bont," meddai Meic.

"Does dim teigrod yn byw yma," atebodd ei ffrindiau gan chwerthin.



Mae angen sbectol newydd ar Meic – nid beic!